Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Trafodaethau ynghylch ymadawiad y DU â'r UE

## Adroddiad Monitro

22 Hydref 2020



Y Senedd a BREXIT

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 7571**
E-bost: **lucy.valsamidis@Senedd.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**



**© Hawlfraint Comisiwn Senedd Cymru 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Trafodaethau ynghylch ymadawiad y DU â'r UE

## Adroddiad Monitro

22 Hydref 2020

**Awduron:**
Lucy Valsamidis a Sara Moran

Y Senedd a BREXIT

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........................................................................ 1**

Crynodeb o'r datblygiadau ........................................................................ 1

**2. Datblygiadau rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ........................................................................ 3**

Cyfarfod Cyngor yr Undeb Ewropeaidd 15-16 Hydref ........................................ 3

Rownd Negodi 9 (28 Medi - 2 Hydref) ........................................................ 5

Cyfarfod y Prif Weinidog a Llywydd Comisiwn yr Undeb Ewropeaidd 6

Trafodaethau: rhagor o fanylion ........................................................................ 6

Gweithredu'r Cytundeb Ymadael ........................................................................ 9

Hawliau dinasyddion ........................................................................ 9

Protocol Iwerddon-Gogledd Iwerddon ........................................................ 10

**3. Datblygiadau yn y Deyrnas Unedig ........................................ 13**

Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig ........................................................ 13

Fframweithiau cyffredin a chysylltiadau rhynglywodraethol .............. 14

Parodrwydd ........................................................................ 15

Deddfwriaeth y Deyrnas Unedig ........................................................ 16

Trafodaethau rhyngwladol ........................................................................ 18

**4. Datblygiadau yng Nghymru ................................................ 20**

Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig ........................................................ 20

Trafodaethau'r Undeb Ewropeaidd ........ 20

Trafodaethau rhyngwladol ........ 21

Parodrwydd ........ 21

Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd ........ 22

Deddfwriaeth ........ 23

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb a dadansoddiad o'r prif ddatblygiadau diweddaraf yn y trafodaethau rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, ar lefel y Deyrnas Unedig ac yng Nghymru, er 15 Medi.

## Crynodeb o'r datblygiadau

Cyfarfu **Prif Drafodwyr yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig** yn rhithiol yr wythnos hon, yn dilyn cyhoeddiad y Prif Weinidog y dylai'r Deyrnas Unedig baratoi ar gyfer trefniadau tebyg i'r rhai rhwng yr Undeb Ewropeaidd ac Awstralia (masnachu ar delerau Sefydliad Masnach y Byd). Daeth y cyhoeddiad yn dilyn cyfarfod Cyngor yr Undeb Ewropeaidd ar 15-16 Hydref, ac yn dilyn hynny cyhoeddwyd datganiad o blaid trafodaethau parhaus, gan alw ar y Deyrnas Unedig i newid ei safbwynt. Ymatebodd y Deyrnas Unedig drwy alw ar yr Undeb Ewropeaidd i newid ei ymagwedd at y negodiadau. Yn y cyfamser, mae arweinwyr yr Undeb Ewropeaidd wedi nodi er y byddai cytundeb yn fuddiol i'r Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig, ni fydd un yn cael ei sicrhau 'am unrhyw bris'. Mae'r Prif Drafodwyr wedi crynhoi meysydd lle mae dargyfeirio o hyd, meysydd lle bu cynnydd yn bosibl a meysydd lle na fu cynnydd. Mae'r gwaith i weithredu'r Cytundeb Ymadael yn parhau gyda chyfarfodydd diweddaraf y Cydbwyllgor a'r Pwyllgorau Arbenigol. Cychwynnodd yr Undeb Ewropeaidd ei ail achos tor rheolau yn erbyn y Deyrnas Unedig ynghylch Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig, sy'n caniatáu i'r Deyrnas Unedig wyro oddi wrth ei rhwymedigaethau o dan y Cytundeb Ymadael. Mae gan y Deyrnas Unedig tan ddiwedd Hydref i ymateb.

**Ar lefel y Deyrnas Unedig**, cwblhaodd Bil y Farchnad Fewnol ei gyfnodau yn Nhŷ'r Cyffredin ac fe'i trosglwyddwyd i Dŷ'r Arglwyddi. Pasiodd Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon gynigion yn gwrthwynebu'r Bil. Nododd Llywodraeth Cymru hefyd ei gwrthwynebiad i'r Bil fel y'i drafftiwyd. Cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei Model Gweithredu Ffiniau a'i Senario Achos Gwaethaf Rhesymol. Ysgrifennodd hefyd at fusnesau sydd wedi eu cofrestru ar gyfer TAW a chychwynnodd ymgyrchoedd cyfathrebu newydd i fusnesau a theithwyr ar baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. Nododd yr Ysgrifennydd Masnach Ryngwladol fodel ar gyfer craffu ar gytundebau rhyngwladol. Cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddadansoddiad fframweithiau cyffredin diwygiedig a gosod y fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer Maeth fel bod modd craffu arno. Parhaodd deddfwriaeth Brexit i symud drwy'r Senedd, ond parhawyd i atal gweithdrefnau ar Fil yr Amgylchedd.

**Yng Nghymru**, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru welliannau arfaethedig i Fil y Farchnad Fewnol. Dywedodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd ei fod wedi ysgrifennu at Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn galw arni i flaenoriaethu cytuno ar gytundeb cyn cyfarfod Cyngor yr Undeb Ewropeaidd. Cyhoeddwyd ad-drefnu bach o bortffolios Gweinidogion Llywodraeth Cymru. Trosglwyddwyd cyfrifoldeb gweinidogol am fasnach ryngwladol i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd. Dywedodd y cyn Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol fod Llywodraeth Cymru wedi gweld deg pennod gyntaf y cytundeb rhwng y Deyrnas Unedig a Japan a oedd wedi cael eu sgwrio'n gyfreithiol. Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n cyhoeddi trosolwg o'i chynllun ar gyfer diwedd y cyfnod pontio ym mis Tachwedd. Dywedodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd fod tua 60,000 o bobl yng Nghymru wedi gwneud cais am gynllun preswylio'n sefydlog i ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd a'i fod wedi ysgrifennu at y Swyddfa Gartref i ofyn am estyniad i'r dyddiad cau. Roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl y byddai angen 44 yn rhagor o offerynnau statudol y Deyrnas Unedig a datganoledig erbyn diwedd y flwyddyn, gyda rhagor yn dibynnu ar ganlyniad y negodiadau.

# 2. Datblygiadau rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd

## Cyfarfod Cyngor yr Undeb Ewropeaidd 15-16 Hydref

**Cynhaliwyd cyfarfod diweddaraf Cyngor yr Undeb Ewropeaidd** ar 15-16 Hydref, lle cyfarfu arweinwyr 27 gwladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd i drafod pandemig y coronafeirws, trafodaethau rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, newid yn yr hinsawdd a chysylltiadau allanol. Yn ei **lythyr gwahoddiad** i arweinwyr 27 gwladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ar 13 Hydref, dywedodd Llywydd Cyngor yr Undeb Ewropeaidd, Charles Michel, er y byddai cytundeb rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn fuddiol i'r ddwy ochr, 'ni all hynny ddod am unrhyw bris'. Ategwyd hyn gan Brif Drafodwr yr Undeb Ewropeaidd, Michel Barnier, yn y **gynhadledd i'r wasg** ar ôl y cyfarfod, ac yn ddiweddarach gan Lywydd Comisiwn yr Undeb Ewropeaidd, **Ursula Von Der Leyen.**

Cyhoeddodd y Cyngor **gasgliadau** ar y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, lle gofynnodd i'r trafodaethau barhau 'yn ystod yr wythnosau nesaf', a galwodd ar y Deyrnas Unedig i 'gymryd y camau angenrheidiol i wneud cytundeb yn bosibl.' Aeth i'r afael yn benodol â Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig, gan ddwyn i gof sut mae'n rhaid i'r Cytundeb Ymadael, gan gynnwys ei Brotocol Iwerddon - Gogledd Iwerddon, gael ei 'weithredu'n llawn ac yn amserol.' Wrth gloi, galwodd y Cyngor am i baratoadau ar gyfer diwedd y cyfnod pontio gael eu cynyddu ar gyfer yr holl ganlyniadau ac i Gomisiwn yr Undeb Ewropeaidd roi 'ystyriaeth amserol i fesurau wrth gefn unochrog a rhai â therfyn amser sydd er budd yr Undeb Ewropeaidd.

Yn dilyn rhan y trafodaethau yn y cyfarfod ar 15 Hydref, soniodd Prif Drafodwr yr Undeb Ewropeaidd, **Michel Barnier,** am y modd roedd wedi cynnig i'r Deyrnas Unedig y gallai trafodaethau dwys barhau am yr wythnos sy'n dechrau ar 19 Hydref yn Llundain, gan symud i Frwsel yr wythnos ddilynol.

### Ymateb y Deyrnas Unedig

Ar 15 Hydref hefyd, trydarodd Prif Drafodwr y Deyrnas Unedig, **yr Arglwydd David Frost**, ei fod wedi ei 'siomi' gan gasgliadau Cyngor yr Undeb Ewropeaidd, ac wedi 'synnu' nad oeddent bellach wedi ymrwymo i'r syniad o drafodwyr yn gweithio'n ddwys, ac ynghylch yr honiad mai'r Deyrnas Unedig fydd yn gorfod newid ei safbwynt i sicrhau cytundeb**. Ymatebodd y Prif Weinidog** ar 16 Hydref, gan

ddweud wrth Sky News bod yr Undeb Ewropeaidd:

> [H]as refused to negotiate seriously for much of the last few months, and given that this summit appears explicitly to rule out a Canada-style deal, I have concluded that we should get ready for January 1st with arrangements that are more like Australia's, based on simple principles of global free trade.

Ailadroddodd ei **safbwynt blaenorol** y byddai'r Deyrnas Unedig yn 'ffynnu'n gryf' ar delerau o'r fath, ac anogodd rhanddeiliaid, gan gynnwys busnes a chludwyr, i fod yn barod ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. Rhyddhawyd ei sylwadau yn ddiweddarach mewn **datganiad swyddogol**. Ychwanegodd **Llefarydd y Prif Weinidog** yn ddiweddarach fod 'y trafodaethau wedi dod i ben' a bod yr Arglwydd David Frost wedi rhoi gwybod i Michel Barnier nad oedd 'unrhyw sail' i'r trafodaethau a drefnwyd wyneb yn wyneb yn Llundain yr wythnos hon. Serch hynny, roedd **cyfarfod rhithwir** rhwng y Prif Drafodwyr wedi ei drefnu ar gyfer 19 Hydref, ac yn dilyn y cyfarfod hwnnw **trydarodd yr Arglwydd Frost** fod y drafodaeth wedi bod yn 'adeiladol', a galwodd ar yr Undeb Ewropeaidd i newid ei agwedd at y trafodaethau. Trefnwyd ail gyfarfod ar gyfer y diwrnod canlynol, sef 20 Hydref. Yn dilyn hyn, fe **drydarodd Michel Barnier** y dylai trafodwyr fod yn 'gwneud y mwyaf o'r amser prin sydd gennym ar ôl.'

Yn ystod yr wythnos cyn cyfarfod Cyngor yr Undeb Ewropeaidd, cynhaliodd y Prif Weinidog sawl cyfarfod ffôn gydag arweinwyr yr Undeb Ewropeaidd ac Ewrop, gan gynnwys **Llywydd Cyngor yr Undeb Ewropeaidd, Charles Michel, Canghellor yr Almaen, Angela Merkel**, ac **Arlywydd Ffrainc, Emmanuel Macron**. Yn ystod y galwadau, pwysleisiodd awydd y Deyrnas Unedig i ddod i gytundeb ond ei fod hefyd yn barod i ddod â'r cyfnod pontio i ben ar 'delerau tebyg i Awstralia'. Cyhuddwyd y Prif Weinidog yn ddiweddarach o geisio rhannu 27 Aelod-wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd drwy droi'r trafodaethau yn 'ddwyochrog' yn ôl **Gweinidog Ewrop yr Almaen, Michael Roth**, gyda chefnogaeth Is-lywydd Comisiwn yr Undeb Ewropeaidd **Maroš Šefčovič, a drydarodd** bod 'undod yr Undeb Ewropeaidd yn gadarn.'

## Camau nesaf Cyngor yr Undeb Ewropeaidd

Credwyd yn flaenorol mai'r cyfarfod oedd y cyfle cyntaf i arweinwyr 27 gwladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd drafod cytundeb drafft rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Byddai hyn wedi bod ar yr un trywydd â **chynllun drafft a rannwyd gan Michel Barnier** ar 24 Gorffennaf, a amlinellodd linell amser ddelfrydol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer cwblhau'r weithdrefn gadarnhau cyn 31 Rhagfyr. Mae cyfarfod nesaf Cyngor yr Undeb Ewropeaidd wedi ei drefnu ar

gyfer 13-14 Rhagfyr, er y gallai cyfarfodydd ychwanegol fod yn bosibl er mwyn trafod cytundeb drafft. Mae Cyngor yr Undeb Ewropeaidd yn cynnal **llinell amser o'i weithredoedd** yn ymwneud â'r trafodaethau, a darperir rhagor o wybodaeth ynghylch cadarnhau cytundeb rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol ym **mlog llinell amser Brexit** Ymchwil y Senedd, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf.

## Rownd Negodi 9 (28 Medi - 2 Hydref)

Cynhaliwyd Rownd Negodi 9 rhwng **28 Medi a 2 Hydref.** Cytunodd Prif Drafodwyr y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd fod gwahaniaethau yn parhau, ond rhestrodd y ddau drafodwr feysydd lle gwnaed cynnydd ac ymrwymwyd i drafodaethau pellach.

Yn ei ddatganiad yn dilyn y cyfarfod, nododd Prif Drafodwr y Deyrnas Unedig, yr **Arglwydd David Frost**, bod 'amlinelliadau cytundeb yn weladwy', gan restru meysydd lle bu cytundeb yn bosibl (masnach mewn nwyddau a gwasanaethau, trafnidiaeth, ynni, nawdd cymdeithasol, a chymryd rhan yn rhaglenni'r Undeb Ewropeaidd). Nododd hefyd fod cynnydd wedi ei wneud o ran gorfodi'r gyfraith, ynghyd â chydgyfeirio ar strwythur y bartneriaeth gyffredinol. O ran pysgodfeydd, disgrifiodd y bwlch rhwng y ddwy ochr fel un 'mawr iawn' a 'risgiau amhosibl eu pontio' heb i'r Undeb Ewropeaidd symud.

Yn ei ddatganiad, disgrifiodd **Prif Drafodwr yr Undeb Ewropeaidd, Michel Barnier,** bwyntiau cydgyfeirio a datblygiadau newydd cadarnhaol ar rai pynciau (gan gynnwys diogelwch hedfan a pharchu hawliau a rhyddid sylfaenol), a hefyd diffyg cynnydd ar eraill (er enghraifft, data, newid yn yr hinsawdd a phrisio carbon). Nododd hefyd 'wahaniaethau difrifol parhaus ar faterion o bwys mawr i'r Undeb Ewropeaidd' ond ni roddodd ragor o fanylion. Ailadroddodd fod y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol yn dibynnu ar gytuno ar chwarae teg, pysgodfeydd a llywodraethu, sydd 'hyd yn oed yn bwysicach' yn dilyn cyflwyno Bil y Farchnad Fewnol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

Cyn Rownd 9, **rhannodd y Deyrnas Unedig destun pum dogfen gyfreithiol drafft newydd** ar bysgodfeydd, chwarae teg, gorfodi'r gyfraith a chydweithredu barnwrol, cydweithredu niwclear sifil a chydlynu nawdd cymdeithasol. Ar adeg cyhoeddi'r papur hwn, nid oedd y testunau wedi eu cyhoeddi.

## Cyfarfod y Prif Weinidog a Llywydd Comisiwn yr Undeb Ewropeaidd

Yn dilyn Rownd 9, cynhaliodd y Prif Weinidog a Llywydd Comisiwn yr Undeb Ewropeaidd, Ursula Von Der Leyen, **gyfarfod dros y ffôn** ar 3 Hydref i bwyso a mesur cynnydd. Er bod cynnydd wedi bod yn ystod yr wythnosau diwethaf, cytunwyd bod 'bylchau sylweddol yn parhau, yn nodedig ond nid yn unig ym meysydd pysgodfeydd, chwarae teg a llywodraethu.' Fe wnaethant gymeradwyo mis arall o drafodaethau, gan roi cyfarwyddyd i'r timau negodi ddwysau eu hymdrechion a chytuno i siarad yn rheolaidd.

Ar 14 Hydref, siaradodd y Prif Weinidog a Llywydd y Comisiwn eto, gyda Llywydd Cyngor yr Undeb Ewropeaidd, Charles Michel, yn bresennol. Yn dilyn yr alwad, **trydarodd y Llywydd Von Der Leyen** bod 'yr Undeb Ewropeaidd yn gweithio ar gytundeb, ond nid am unrhyw bris' a bod 'llawer o waith o'n blaenau o hyd.' Yn **natganiad i'r wasg y Prif Weinidog** dywedodd ei fod yn 'siomedig na wnaed mwy o gynnydd' ac y byddai'n myfyrio ar ganlyniad cyfarfod Cyngor yr Undeb Ewropeaidd ar 15-16 Hydref cyn nodi camau nesaf y Deyrnas Unedig. **Ailddechreuodd y trafodaethau** anffurfiol tan gyfarfod Cyngor yr Undeb Ewropeaidd ar 15-16 Hydref. Cadarnhaodd Prif Drafodwr yr Undeb Ewropeaidd, **Michel Barnier,** ar 15 Hydref y byddai'r Prif Weinidog a Llywydd Comisiwn yr Undeb Ewropeaidd yn cadw mewn cysylltiad 'mor aml ag sy'n angenrheidiol.'

## Trafodaethau: rhagor o fanylion

### Prif Drafodwyr

Cynghorodd Prif Drafodwr y Deyrnas Unedig, yr Arglwydd David Frost, **Bwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar y Berthynas yn y Dyfodol** ar 7 Hydref bod cytundeb 'yn amlwg yn gyraeddadwy.' Dywedodd ei fod yn gweld pysgodfeydd fel y mater 'anoddaf' sydd ar ôl ac, yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, wrth roi tystiolaeth i **Bwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi,** ychwanegodd bod llywodraethu a chwarae teg yn feysydd lle mae 'bylchau mawr' yn bodoli rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Dywedodd hefyd wrth y Pwyllgor ar y Berthynas yn y Dyfodol fod y cytundeb rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd:

> [I]s much more than a pure free trade agreement. This agreement is huge in breadth and, as well as trade, it covers road haulage, air transport, energy, social security, law enforcement and so on. It's much, much broader.

Hyd yn oed os na chytunir ar gytundeb masnach yn y dyfodol, mae'n rhagweld

y bydd y ddwy ochr yn parhau i drafod 'cryn dipyn o faterion ymarferol,' – er enghraifft, hedfan a chludiant ar y ffyrdd.

Ar 13 Hydref, **adroddodd y Guardian** fod Prif Drafodwr yr Undeb Ewropeaidd, Michel Barnier, wedi dweud wrth gyfarfod o **Gyngor Materion Cyffredinol** yr Undeb Ewropeaidd nad oedd y ddwy ochr mewn sefyllfa i symud ymlaen at gamau olaf y trafodaethau, y cyfeirir atynt fel y 'twnnel.' Dywedodd y byddai cytundeb yn 'anodd iawn, ond mae'n dal yn bosibl' a bod digon o amser ar ôl er mwyn dod i gytundeb. Mewn **cynhadledd i'r wasg** yn dilyn cyfarfod Cyngor yr Undeb Ewropeaidd ar 15 Hydref, dywedodd fod cytundeb, marciau cwestiwn a gwahaniaethau ar draws 'nifer o bynciau'. Yn ogystal, mae 'tri phwnc lle mae'r bwlch yn rhy eang ar hyn o bryd' – y rhain yw chwarae teg, llywodraethu a physgodfeydd.

## Pysgodfeydd

O ran pysgodfeydd, **adroddodd y *Guardian*** bod testun drafft pysgodfeydd diweddaraf y Deyrnas Unedig yn cynnig dull graddol tair blynedd o ran unrhyw drefniant newydd rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd rhwng 2021 a 2024. Yn ôl yr adroddiad, byddai hyn yn cynnig amser i gymunedau arfordirol Ewrop addasu i'r newidiadau. Ar 7 Hydref, wrth roi tystiolaeth i **Bwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar y Berthynas yn y Dyfodol,** dywedodd Prif Drafodwr y Deyrnas Unedig, yr Arglwydd David Frost:

> The problem that we face and the opportunity that we have with fishing in future is that the EU fish nearly half the fish in our waters at the moment and we've made clear that there needs to be a huge change in that situation in future and that's something we intend to cure. Now obviously there's going to be an effect on EU fishing communities from that, and it seems entirely reasonable to us that, providing the end point is one we wish to get to that there could be some glide path to get there.

O ran ymateb yr Undeb Ewropeaidd i gyfnod pontio, dywedodd fod trafodaethau rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn parhau.

Daeth cynigion newydd y Deyrnas Unedig yn dilyn cwblhau **cytundeb pysgodfeydd newydd rhwng y Deyrnas Unedig a Norwy** ar 30 Medi. Mae **testun y cytundeb** yn cadarnhau bod y Deyrnas Unedig wedi sicrhau trafodaethau blynyddol ar gyfer mynediad a chwota pysgodfeydd ar sail ymlyniad at barthau ar gyfer stociau a rennir - telerau y mae'r Deyrnas Unedig yn eu ceisio ar gyfer trefniadau pysgota gyda'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol. Bydd y cytundeb yn parhau mewn grym tan 31 Rhagfyr 2026 i ddechrau ac wedi hynny am

gyfnodau olynol o bedair blynedd oni bai bod y naill barti neu'r llall yn ei derfynu.

Yn y cyfamser, **adroddodd *Politico*** bod Prif Drafodwr yr Undeb Ewropeaidd, Michel Barnier, wedi cynghori arweinwyr gwladwriaethau arfordirol o blith 27 gwladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd y gallai fod angen consesiynau, gan gynnwys trafod cwotâu mwy ar gyfer y Deyrnas Unedig. Gofynnodd Mr Barnier i'r arweinwyr ddarparu eu 'llinellau coch' i'w trafod ac am gyfarfodydd rheolaidd.

## Gorfodi'r gyfraith a chydweithredu barnwrol

Safbwynt yr Undeb Ewropeaidd yw bod y gwaith o orfodi cyfraith a chydweithrediad barnwrol y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol, gan gynnwys mynediad at gronfeydd data'r Undeb Ewropeaidd, yn amodol ar lefel diogelu data a digonolrwydd data'r Deyrnas Unedig, ei hymlyniad parhaus â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a'r Deyrnas Unedig yn parhau i weithredu deddfwriaeth ddomestig gysylltiedig (gan gynnwys Deddf Hawliau Dynol 1998). Mae'r **Undeb Ewropeaidd wedi rhybuddio** y byddai'n atal cydweithredu ar ddiogelwch rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd os yw'r Deyrnas Unedig yn methu bodloni'r amodau hyn.

O ran data, cyflwynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig **ei dogfennau** i geisio penderfyniad ar ddigonolrwydd data gan Gomisiwn yr Undeb Ewropeaidd ym mis Mawrth, a lansiodd ei **Strategaeth Data Genedlaethol** newydd ar 9 Medi. Fodd bynnag, nododd Prif Drafodwr yr Undeb Ewropeaidd, Michel Barnier, ar ddiwedd Rownd 9 y negodiadau y bu 'diffyg cynnydd' ar ddata.

O ran mynediad at **System Wybodaeth Schengen yr Undeb Ewropeaidd,** esboniodd yr Arglwydd Frost wrth y **Bwyllgor Ty'r Cyffredin ar y Berthynas yn y Dyfodol**, ar 7 Hydref, ei bod yn ymddangos bod safbwynt yr Undeb Ewropeaidd ynghylch gwahardd mynediad i drydedd wlad am resymau cyfreithiol yn 'gyfyngiad', a bod dewisiadau amgen yn cael eu hystyried. Cadarnhaodd fod trafodwyr y Deyrnas Unedig yn ceisio cytundeb ar wahân ar gyfer hyn. Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, wrth roi tystiolaeth i **Bwyllgor Undeb Ewropeaidd Ty'r Arglwyddi,** ychwanegodd fod y Deyrnas Unedig yn ceisio cadw mynediad neu ymglymiad mewn '10 i 12 gallu penodol'.

O ran y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, cynghorodd yr Arglwydd Frost **Bwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi** bod y cwestiwn ynghylch sut byddai cytundeb rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol yn cyfeirio at y Confensiwn ac at ei weithredu'n ddomestig yn y Deyrnas Unedig wedi bod yn 'tarfu' ar y trafodaethau. Fodd bynnag, dywedodd fod trafodwyr wrthi'n

ceisio 'datrys' y drafodaeth hon a'i fod o'r farn bod canlyniad boddhaol o fewn cyrraedd.

Mae darpariaethau sy'n ymwneud â'r Confensiwn a deddfwriaeth ddomestig gysylltiedig y Deyrnas Unedig wedi eu cynnwys ym Mil Marchnad Fewnol Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae Rhan 5 y Bil yn darparu ar gyfer gweithredu Protocol Iwerddon-Gogledd Iwerddon ac yn caniatáu i'r Deyrnas Unedig wyro oddi wrth ei rhwymedigaethau o dan y Cytundeb Ymadael a rhwymedigaethau domestig a rhyngwladol eraill. Mae rhagor o wybodaeth wedi ei chynnwys yn adran 3.1 isod.

## Gweithredu'r Cytundeb Ymadael

Cynhaliwyd cyfarfod **Cyd-bwyllgor y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd** ar 19 Hydref. Yn dilyn hyn, cyhoeddodd Is-lywydd Comisiwn yr Undeb Ewropeaidd, Maroš Šefčovič, baratoadau dwys i sicrhau bod y Cytundeb Ymadael yn 'gwbl weithredol' ar 1 Ionawr 2021. Croesawodd y 'cyfeiriad gwleidyddol clir a'r ymrwymiad' i gyrraedd atebion y cytunwyd arnynt ar y cyd gan gynrychiolydd y Deyrnas Unedig, sef Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn, Michael Gove.

Cynhaliwyd cyfarfod blaenorol **Cyd-bwyllgor y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd** ar 28 Medi, ac yn dilyn hynny galwodd Is-lywydd Comisiwn yr Undeb Ewropeaidd, Maroš Šefčovič, am gyflymu paratoadau diwedd y cyfnod pontio. Cynhaliwyd trydydd cyfarfod y **Pwyllgorau Arbenigol** ar hawliau dinasyddion a Phrotocol Iwerddon-Gogledd Iwerddon ym mis Hydref, ac fe'u crynhoir isod.

## Hawliau dinasyddion

Cynhaliwyd trydydd cyfarfod y Pwyllgor Arbenigol ar Hawliau Dinasyddion ar 8 Hydref drwy fideo-gynadledda. Mae'r **datganiad ar y cyd** a gyhoeddwyd ar ôl y cyfarfod yn cadarnhau bod 'nifer' o Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd hefyd yn bresennol ochr yn ochr â chynrychiolwyr y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Bu'r rhai a oedd yn bresennol yn trafod cydgysylltu nawdd cymdeithasol, ac adroddiad ar y cyd arfaethedig y Pwyllgor ynghylch cyhoeddi dogfennau preswyl. Defnyddir yr adroddiad i fonitro'r cynnydd wrth weithredu cynlluniau preswylio newydd y Deyrnas Unedig ac Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd, yn ogystal â nifer dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd yn y Deyrnas Unedig a gwladolion y Deyrnas Unedig yn yr Undeb Ewropeaidd a sicrhaodd hawliau preswylio o dan y Cytundeb Ymadael. Cadarnhawyd yn dilyn **cyfarfod y Cyd-bwyllgor** ar 19 Hydref y bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn y dyddiau nesaf ac y bydd yn cael ei ddiweddaru bob tri mis tan ddiwedd 2021. Cadarnhawyd

hefyd bod 27 Aelod-wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ar y trywydd iawn i ddefnyddio eu cynlluniau preswylio yn llawn, a rhoddodd y Deyrnas Unedig sicrwydd y bydd dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd sydd â statws preswylio yn elwa'n llawn ar yr un set a lefel o hawliau a ddarperir yn y Cytundeb Ymadael.

Daw'r cyfarfod yn dilyn lansio achos tor rheolau'r Undeb Ewropeaidd yn erbyn y Deyrnas Unedig ar 14 Mai, wedi ei grynhoi yn **Adroddiad Monitro Trafodaethau Brexit** mis Mehefin. Ar 14 Hydref, **cyflwynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig offerynnau statudol** sy'n darparu rhagor o wybodaeth am sefyllfa dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys sut mae'n bosibl i ymgeiswyr Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd aros yn y Deyrnas Unedig ar ôl dyddiad cau'r ceisiadau ar 30 Mehefin 2021 os nad oes penderfyniad wedi ei wneud eto ar eu cais. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau preswylio'r Deyrnas Unedig ac Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd , gweler erthygl blog diweddaraf Ymchwil y Senedd ar **hawliau dinasyddion ar ôl Brexit.**

## Protocol Iwerddon-Gogledd Iwerddon

### Cydbwyllgor y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd

Cynhaliodd Cydbwyllgor y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd gyfarfod eithriadol ar 10 Medi ar ôl i Lywodraeth y Deyrnas Unedig gyflwyno **Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig,** sy'n caniatáu i'r Deyrnas Unedig wyro oddi wrth ei rhwymedigaethau yn y Cytundeb Ymadael sy'n ymwneud â Phrotocol Iwerddon-Gogledd Iwerddon. Yn y cyfarfod, **gofynnodd yr Undeb Ewropeaidd** bod rhai darpariaethau yn cael eu tynnu o'r Bil erbyn diwedd mis Medi. Cyfarfu'r Cyd-bwyllgor eto ar 28 Medi fel rhan o'i amserlen reolaidd. Wrth gyfeirio at y Bil, dywedodd **Is-lywydd Comisiwn yr Undeb Ewropeaidd, Maroš Šefčovič:**

> We maintain that the Bill, if adopted in its current form, would constitute an extremely serious violation of the protocol as an essential part of the Withdrawal Agreement and of international law (...) the Withdrawal Agreement is to be implemented, not to be renegotiated, let alone unilaterally changed, disregarded or disapplied. It cannot be stressed enough that the Protocol is specifically designed to protect the Good Friday (Belfast) Agreement and the achievements of the peace process.

Yn ei ddatganiad yn dilyn y cyfarfod, **dywedodd** Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn y Deyrnas Unedig, Michael Gove, ei fod wedi:

> [R]eiterated that the measures set out in the Internal Market Bill are designed to create a 'safety net' to ensure the communities of Northern

> Ireland are protected. The UK is clear that those measures would not be withdrawn.

Mae Ymchwil y Senedd wedi cyhoeddi **crynodeb o'r Bil**, gan gynnwys ei ddarpariaethau sy'n ymwneud â Phrotocol Iwerddon-Gogledd Iwerddon.

## Lansio gweithdrefn tor rheolau newydd yn erbyn y Deyrnas Unedig

Yn dilyn pasio dyddiad cau'r Undeb Ewropeaidd, ar 1 Hydref, lansiodd Comisiwn yr Undeb Ewropeaidd achos tor rheolau yn erbyn y Deyrnas Unedig. Mewn **datganiad, dywedodd y Llywydd Ursula Von Der Leyen** bod y Bil 'yn ei hanfod' yn gyfystyr â thorri'r rhwymedigaeth 'ewyllys da' a geir yn Erthygl 5 y Cytundeb Ymadael. Anfonodd yr Undeb Ewropeaidd **rybudd ffurfiol ynghylch tor rheolau** yn gofyn am ymateb gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig o fewn mis. Ar 7 Hydref, cadarnhaodd Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn y Deyrnas Unedig, Michael Gove, i **Bwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar y Berthynas yn y Dyfodol** bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ceisio 'sicrhau bod yr angen am gamau cyfreithiol o du'r Undeb Ewropeaidd yn diflannu.'

Yn y cyfamser, **rhybuddiodd Senedd Ewrop** na fyddai'n cadarnhau cytundeb rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd os yw'r Deyrnas Unedig yn torri, neu'n bygwth torri, amodau gweithredu'r Cytundeb Ymadael. Mae angen cydsyniad Senedd Ewrop ar gyfer cytundeb rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol. Yn ogystal, ychwanegodd Cadeirydd **Grŵp Cydlynu'r Deyrnas Unedig yn y Senedd, David McAllister,** fod y Senedd yn gofyn am ragor o amser na Thŷ'r Cyffredin i drafod unrhyw gytundeb drafft.

## Cyfarfod Pwyllgor Arbenigol

Ar 10 Hydref, cynhaliwyd **trydydd cyfarfod** y Pwyllgor Arbenigol ar Brotocol Iwerddon-Gogledd Iwerddon. O ran y Bil, roedd **Datganiad yr Undeb Ewropeaidd** yn dilyn y cyfarfod yn ailadrodd y dyddiad cau ar gyfer ymateb y Deyrnas Unedig i'r hysbysiad tor rheolau erbyn diwedd mis Hydref. Nododd hefyd, ar ôl trafod ymateb y Deyrnas Unedig, neu os na dderbynnir ymateb, y gall yr Undeb Ewropeaidd benderfynu cyhoeddi **Barn Resymedig** i'r Deyrnas Unedig. Mae Barn Resymedig yn geisiadau ffurfiol gan Gomisiwn yr Undeb Ewropeaidd i Aelod-wladwriaethau sy'n gofyn iddynt gydymffurfio â chyfraith yr Undeb Ewropeaidd. Gall y broses arwain at gyfeirio'r mater i Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd. Er nad yw'r Deyrnas Unedig bellach yn Aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd, cytunodd ar y trefniant hwn yn y **Cytundeb Ymadael.**

Yn **natganiad yr Undeb Ewropeaidd** cynghorir hefyd bod 'bylchau sylweddol yn

parhau' yng nghynnydd y Deyrnas Unedig wrth weithredu'r Protocol 'er gwaethaf ymdrechion dwys.' Galwodd yr Undeb Ewropeaidd ar y Deyrnas Unedig i gymryd nifer o gamau yn ymwneud â pharodrwydd ffiniau, gan gynnwys darparu llinell amser ar gyfer eu gweithredu. Mae'r datganiad hefyd yn rhestru nifer o dasgau y mae gofyn i'r Cyd-bwyllgor eu gweithredu cyn diwedd y cyfnod pontio:

- cytuno ar drefniadau gweithio i sicrhau bod hawliau cynrychiolwyr yr Undeb Ewropeaidd i fod yn bresennol pan fydd awdurdodau'r Deyrnas Unedig yn gweithredu'r Protocol yn weithredol ac yn effeithiol;
- penderfynu ar 'nwyddau nad ydynt mewn perygl' wrth symud o Brydain i Ogledd Iwerddon;
- pennu cymorthdaliadau amaethyddol ac eithriadau tariff ar gyfer pysgodfeydd yng Ngogledd Iwerddon.

Adolygwyd cynnydd y Pwyllgor Arbenigol yng **nghyfarfod Cyd-bwyllgor y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd** ar 19 Hydref. Yn dilyn y cyfarfod, cadarnhaodd yr Undeb Ewropeaidd y bydd yn rhoi mynediad i'r Deyrnas Unedig at y systemau, y cronfeydd data a'r rhwydweithiau TG angenrheidiol i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Protocol. Galwodd yr Undeb Ewropeaidd ar y Deyrnas Unedig i 'gyflymu'n sylweddol' y modd y mae'n gweithredu'r Protocol, fel y nodir uchod.

# 3. Datblygiadau yn y Deyrnas Unedig

## Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig

Pasiodd Bil y Farchnad Fewnol **ei drydydd darlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin o 340 pleidlais i 256** ar 29 Medi. Ar 20 Hydref, **pleidleisiodd Tŷ'r Arglwyddi** o 395 pleidlais i 169 o blaid gwelliant i'r cynnig i ganiatáu ail ddarlleniad o'r Bil, i nodi ei bod yn resyn bod 'Rhan 5 y bil yn cynnwys darpariaethau a fyddent, pe byddent yn cael eu rhoi ar waith, yn tanseilio rheol cyfraith a niweidio enw da'r Deyrnas Unedig.'

**Pasiodd Senedd yr Alban gynnig yn gwrthod caniatâd** i'r Bil Marchnad Fewnol ar 7 Hydref. Pasiodd **Cynulliad Gogledd Iwerddon** gynnig yn gwrthwynebu'r Bil ar 22 Medi. Nododd Llywodraeth Cymru hefyd ei gwrthwynebiad i'r Bil fel y'i drafftiwyd (gweler adran 4.1 isod).

**Adroddodd Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi** ar y Bil ar 16 Hydref, gan godi pryderon ynghylch y goblygiadau o ran datganoli a rheol y gyfraith.

### Mynediad at y farchnad

Fe wnaeth Tŷ'r Cyffredin nifer o welliannau i rannau 1-4 y Bil ar fynediad at y farchnad ar argymhelliad y Llywodraeth, gan gynnwys:

- dileu gofynion dull gwerthu o'r egwyddor cyd-gydnabod;
- galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi canllawiau ar weithredu'r egwyddorion mynediad at y farchnad; a
- galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ffurfio Swyddfa ar gyfer Panel y Farchnad Fewnol.

### Protocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon

Fe wnaeth Tŷ'r Cyffredin newidiadau hefyd i Ran 5 y Bil ar Brotocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon ar argymhelliad y Llywodraeth, gan gynnwys:

- eithrio awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys Gweinidogion, rhag gorfod cyflawni eu dyletswydd o dan adran 6(1) o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 i weithredu yn unol â hawliau Siarter Hawliau Dynol Ewrop wrth wneud rheoliadau o dan gymalau 44(1) a 45(1);
- darparu bod rheoliadau o dan gymalau 44(1) a 45(1) i gael eu trin fel

deddfwriaeth sylfaenol at ddibenion y Ddeddf Hawliau Dynol. Mae adran 21(1) y Ddeddf yn diffinio deddfwriaeth sylfaenol, nad yw'n cynnwys gorchymyn neu offeryn arall a wnaed o dan ddeddfwriaeth sylfaenol gan Weinidogion Cymru.

- darparu na ellir ymestyn y terfyn amser safonol ar gyfer gwneud cais am adolygiad barnwrol o reoliadau o dan gymalau 44 a 45.

**Cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddatganiad** ar 17 Medi ar Gymalau 42, 43 a 45 y Bil. Nodir:

> HMG will ask Parliament to support the use of the provisions in Clauses 42, 43 and 45 of the UKIM Bill, and any similar subsequent provisions, only in the case of, in our view, the EU being engaged in a material breach of its duties of good faith or other obligations, and thereby undermining the fundamental purpose of the Northern Ireland Protocol.

**Ysgrifennodd Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi** at yr Arglwydd Ganghellor i ofyn sut roedd y Bil yn cydymffurfio â chyfraith ryngwladol yn ei olwg ef. **Ymatebodd yr Arglwydd Ganghellor** ar 29 Medi, gan nodi nad oedd pasio'r Bil yn gyfystyr ag arfer y pwerau yn y Bil, a bod y Bil yn 'bolisi yswiriant'. **Ysgrifennodd y Cydbwyllgor ar Hawliau Dynol** at yr Ysgrifennydd Busnes ar 29 Medi hefyd i fynegi pryder am y gwelliannau, gan nodi bod 'yr angen am y gwelliannau hyn yn dangos eich bod chi'n derbyn y gellir torri hawliau dynol'. **Ymatebodd yr Ysgrifennydd Busnes** ar 10 Hydref.

**Adroddodd Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi** ar Ran 5 y Bil ar 16 Hydref. Daeth i'r casgliad bod y Bil yn anghydnaws â'r Cytundeb Ymadael ac 'mewn egwyddor, os nad mewn bwriad, gallai fod yn fygythiad [...] i gynnal Cytundeb Belffast/Gwener y Groglith.'

## Fframweithiau cyffredin a chysylltiadau rhynglywodraethol

Ym mis Medi, **cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig** ddadansoddiad o fframweithiau cyffredin wedi ei ddiweddaru, ochr yn ochr â'i **wythfed adroddiad cynnydd** ar Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Fframweithiau Cyffredin. Mae'r dadansoddiad fframweithiau newydd yn nodi cynlluniau ar gyfer 18 fframwaith cyffredin deddfwriaethol a 13 fframwaith anneddfwriaethol i Gymru. **Fe wnaeth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd ddatganiad** i gydnabod eu cyhoeddiad ar 9 Hydref, gan ddweud bod Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig yn 'tanseilio cydweithredu ar fframweithiau cyffredin yn ddifrifol'.

Cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y **fframwaith dros dro ar gyfansoddiad, safonau a labelu sy'n gysylltiedig â maeth** ar 9 Hydref. Bydd y

fframwaith dros dro nawr yn mynd drwy'r **broses graffu seneddol** ym mhob un o'r pedair deddfwrfa.

**Ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd** at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 17 Medi i gadarnhau bod gweinidogion cysylltiadau rhynglywodraethol wedi cynnal ail gyfarfod i drafod peirianwaith ac osgoi anghydfodau ar 10 Medi. Ar 21 Hydref, **adroddodd y *Financial Times*** fod Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn wedi dweud y byddai'r adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol yn cael ei 'gyflymu'.

## Parodrwydd

### Porthladdoedd a ffiniau

Cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei **Model Gweithredu Ffiniau** wedi ei ddiweddaru ar 8 Hydref. Mae hwn yn rhoi rhagor o fanylion am weithredu'r ffin rhwng Prydain a'r Undeb Ewropeaidd ar ôl diwedd y cyfnod pontio. Mae'n cadarnhau y bydd angen Trwydded Mynediad i Gaint ar gludwyr i gael mynediad at groesfannau byr y culfor ac na fydd cardiau adnabod cenedlaethol yr Undeb Ewropeaidd, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd na'r Swistir bellach yn ddilys ar gyfer teithio i'r Deyrnas Unedig o fis Hydref 2021. Mae hefyd yn mapio lleoliadau'r seilwaith tollau arfaethedig ym Mhrydain (gweler adran 4.4 isod).

Ar 23 Medi, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei **Senario Achos Gwaethaf Rhesymol**, sy'n amlinellu rhagdybiaethau cynllunio'r llywodraeth. Nodir yn y ddogfen, mewn senario waethaf resymol, ar 1 Ionawr 2021 ei bod yn bosibl na fyddai rhwng 40 a 70 y cant o lorïau sy'n teithio i'r Undeb Ewropeaidd yn barod ar gyfer rheolaethau ffiniau newydd. Amcangyfrifir y gallai ciwiau o hyd at 7000 o lorïau ar eu ffordd i borthladdoedd yng Nghaint arwain at oedi o hyd at ddau ddiwrnod.

Ar wahân, ar 24 Medi dywedodd **Ysgrifennydd Parhaol Adran Amaeth Gogledd Iwerddon** wrth Bwyllgor Amaeth Cynulliad Gogledd Iwerddon y byddai 'bron yn amhosibl' trefnu bod gwiriadau ar waith ym mhorthladdoedd Gogledd Iwerddon ar gyfer diwedd y cyfnod pontio.

### Parodrwydd busnes

Ar 23 Medi, cafwyd **datganiad gan Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn, Michael Gove AS,** yn Nhŷ'r Cyffredin ynghylch diwedd y cyfnod pontio. Dywedodd fod

data arolwg yn dangos bod 24% o fusnesau o'r farn eu bod yn gyfan gwbl barod ar gyfer diwedd y cyfnod pontio a bod 43% o'r farn y byddai'r cyfnod pontio yn cael ei ymestyn, er bod y dyddiad wedi ei bennu.

Ar 18 Hydref, dechreuodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ymgyrch **'time is running out'**, gan annog busnesau i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. Cadarnhawyd y byddai Pwyllgor Cabinet Gweithrediadau Ymadael yn awr yn cyfarfod yn ddyddiol ac yn canolbwyntio ar barodrwydd busnes. **Ysgrifennodd Cyllid a Thollau EM at fusnesau sydd wedi eu cofrestru ar gyfer TAW** ar 14 Medi ac 18 Hydref i ofyn i fusnesau baratoi ar gyfer gwiriadau newydd ar nwyddau sy'n symud rhwng Prydain a'r Undeb Ewropeaidd o 1 Ionawr, gan gynnwys gofynion i gael rhif Cofrestru ac Adnabod Gweithredwyr Economaidd y Deyrnas Unedig (EORI). Mae angen y rhain i gwblhau datganiadau tollau. Ar 18 Medi, dechreuodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig **ymgyrch gyfathrebu** i helpu teithwyr i baratoi ar gyfer newidiadau wrth ymweld ag Ewrop o 1 Ionawr.

## Deddfwriaeth y Deyrnas Unedig

### Bil Amaethyddiaeth

**Trafododd Tŷ'r Arglwyddi y Bil Amaethyddiaeth** yn y cyfnod adrodd a'r trydydd darlleniad. Pleidleisiodd Tŷ'r Arglwyddi yn erbyn y Llywodraeth i wneud nifer o welliannau i'r Bil, gan gynnwys ynghylch safonau a chytundebau masnach. Anghytunodd Tŷ'r Cyffredin â gwelliannau'r Arglwyddi mewn 'ping pong' ar 12 Hydref.

Yng Nghymru, **cytunodd y Senedd ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol** ar 29 Medi. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **thrydedd** a'i **phedwaredd memorandwm cydsyniad atodol** ar welliannau yn y cyfnod pwyllgor ac adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 25 a 28 Medi. Yn ogystal, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb i'r **ymgynghoriad ar ffermio cynaliadwy** ar 8 Gorffennaf. Mae hyn yn cadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno papur gwyn ar gymorth amaethyddol cyn diwedd tymor y Senedd.

### Bil Pysgodfeydd

Aeth y **Bil Pysgodfeydd** drwy ei gyfnod adrodd a'i drydydd darlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13 Hydref. Bydd yn awr yn dychwelyd i Dŷ'r Arglwyddi ar gyfer 'ping pong'.

Yng Nghymru, cytunodd y Senedd ar **gynnig cydsyniad deddfwriaethol** ar y

Bil ar 6 Hydref. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei **thrydedd** a'i **phedwaredd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol** ar 16 Medi a 1 Hydref. Cyhoeddodd y **Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad** a'r **Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig** eu hadroddiadau ar femorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol Llywodraeth Cymru ym mis Medi. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodeb o'r ymatebion i'r **ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd** ar 15 Medi.

## Bil Masnach

Cwblhaodd Tŷ'r Arglwyddi ei waith trafod ar y **Bil Masnach** yn y cyfnod pwyllgor. Adroddwyd ar y Bil heb ei newid. Nid yw'r dyddiad ar gyfer y cyfnod adrodd wedi ei gyhoeddi eto. Yng Nghymru, **cyflwynodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ei adroddiad** ar **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil.

## Bil yr Amgylchedd

Mae gwaith trafod **Bil yr Amgylchedd** yn Nhŷ'r Cyffredin yn parhau i fod wedi ei atal. Disgwylir i'r Pwyllgor Biliau adrodd erbyn 1 Rhagfyr erbyn hyn. Mae Llywodraeth Cymru **yn ceisio penodi** Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro i oruchwylio gweithdrefn gwynion dros dro i efelychu'r rôl a chwaraeir ar hyn o bryd mewn llywodraethu amgylcheddol gan y Comisiwn Ewropeaidd 'er mwyn pontio'r bwlch rhwng diwedd y cyfnod pontio a gweithredu mecanwaith llywodraethu amgylcheddol parhaol i Gymru.'

## Biliau eraill

Cafodd y **Bil Cydlynu Mewnfudo a Nawdd Cymdeithasol (Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd)** ei drydydd darlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 12 Hydref. Pleidleisiodd Tŷ'r Arglwyddi yn erbyn y Llywodraeth i wneud nifer o welliannau i'r Bil, gan gynnwys ar aelodau teulu dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn y Deyrnas Unedig, plant dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd sydd mewn gofal yn y Deyrnas Unedig, ffoaduriaid sy'n blant a dioddefwyr caethwasiaeth fodern. Anghytunodd Tŷ'r Cyffredin â gwelliannau'r Arglwyddi mewn 'ping pong' ar 19 Hydref.

Cwblhaodd y **Bil Cyfraith Ryngwladol Breifat (Gweithredu Cytundebau)** ei gyfnodau yn Nhŷ›r Cyffredin ar 6 Hydref. Bydd yn awr yn dychwelyd i Dŷ'r Arglwyddi ar gyfer 'ping pong'.

Mae Tŷ'r Arglwyddi yn trafod y **Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol** yn y cyfnod pwyllgor. Cwblhaodd y **Bil Estraddodi (Arestio Dros Dro)** ei hynt drwy'r Senedd ar 14 Hydref a bydd yn awr yn symud i Gydsyniad Brenhinol.

## Trafodaethau rhyngwladol

Cafwyd datganiad gan yr Ysgrifennydd Masnach Ryngwladol **ar drefniadau craffu** ar gyfer cytundebau masnach ryngwladol ar 12 Hydref. Nodir y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn rhannu cytundebau masnach yn y dyfodol gyda'r pwyllgorau masnach rhyngwladol yn nau Dŷ'r Senedd, ynghyd ag asesiadau effaith. Dywed y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ymdrechu i sicrhau bod ganddynt ddeg diwrnod eistedd i drafod y rhain yn gyfrinachol. Yna bydd y cytundeb terfynol yn cael ei osod gerbron y Senedd ac yn ddarostyngedig i weithdrefn graffu'r Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu.

### Cytundeb rhwng y Deyrnas Unedig a Japan

Disgwylir i destun y cytundeb rhwng y Deyrnas Unedig a Japan gael ei gyhoeddi ym mis Hydref. **Ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Masnach Ryngwladol** at Bwyllgor Masnach Ryngwladol Tŷ'r Cyffredin ar 12 Hydref i gadarnhau y byddai'r testun yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor ar y dyddiad hwnnw neu tua'r adeg honno.

### Trafodaethau rhwng y Deyrnas Unedig ac Unol Daleithiau America

Cafwyd **datganiad gan yr Ysgrifennydd Masnach Ryngwladol** ar hynt trafodaethau masnach rhwng yr Unol Daleithiau a'r Deyrnas Unedig ar 22 Medi. Cadarnhawyd yn y datganiad fod y bedwaredd rownd o drafodaethau wedi digwydd rhwng 8 a 18 Medi a thrafodwyd ffrydiau gwaith a restrwyd. Dywedodd fod trafodwyr wedi cyfnewid eu cynigion tariff cyntaf a'u bod wrthi'n cydgrynhoi testun ar gyfer y mwyafrif o benodau. Trefnwyd y rownd nesaf o drafodaethau rhwng canol a diwedd mis Hydref.

**Adroddodd y BBC** ar 17 Medi bod Llefarydd Tŷ Cynrychiolwyr yr Unol Daleithiau, Nancy Pelosi, ac ymgeisydd Arlywyddol y Democratiaid Joe Biden wedi nodi bod cytundeb ar gytundeb masnach rhwng y Deyrnas Unedig a'r Unol Daleithiau yn dibynnu ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn 'parchu Cytundeb Dydd Gwener y Groglith'.

### Rhaglen Parhad Cytundebau Masnach

Disgwylir i gytundebau parhad masnach pellach gael eu llofnodi cyn diwedd y

cyfnod pontio. **Ysgrifennodd y Gweinidog Buddsoddi yn yr Adran Masnach Ryngwladol, yr Arglwydd Grimstone,** at is-bwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen parhad masnach ar 17 Medi.

Yn ei **thystiolaeth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin** ar 14 Medi, nododd Ysgrifennydd Parhaol Adran Masnach Ryngwladol Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Antonia Romeo, nad yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig bellach yn 'gwahanu' rhwng y cytundebau parhad masnach a chytundebau masnach eraill mae'r Deyrnas Unedig yn eu trafod ar hyn o bryd. Dywedodd mai'r 'blaenoriaethau yn awr yw'r cytundebau masnach rydd', ond y byddai mwy o gytundebau parhad yn cael eu sefydlu erbyn diwedd y flwyddyn.

# 4. Datblygiadau yng Nghymru

## Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **memorandwm cydsyniad deddfwriaethol** ar y Bil ar 25 Medi. Nodir yn y ddogfen honno bod Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu pob rhan o'r Bil ac na fydd yn argymell caniatâd i'r Bil oni bai ei fod yn cael ei ddiwygio'n sylweddol. Cynigiodd Llywodraeth Cymru **ddiwygiadau** i Aelodau Tŷ'r Arglwyddi eu cyflwyno i'r Bil ar 15 Hydref. **Trafododd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd** y diwygiadau arfaethedig gyda'r Aelodau yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Hydref.

**Rhoddodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd dystiolaeth** i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Bil ar 21 Medi, gan egluro ei farn bod 'y Bil yn ceisio dileu datganoli'.

**Ysgrifennodd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd at Ysgrifennydd Gwladol Cymru** i ofyn am gymhwyso'r confensiwn cydsyniad deddfwriaethol i'r Bil. Mewn ymateb, **dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol** fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn 'gweithio'n agos' gyda Llywodraeth Cymru i ddeall ac ymateb i'w phryderon. **Cyhoeddodd y Pwyllgor ddatganiad ar y Bil** ar 24 Medi, gan ddweud ei bod yn ymddangos bod y Bil 'yn ymgais i ganoli rheolaeth yn ôl yn San Steffan'.

## Trafodaethau'r Undeb Ewropeaidd

Mewn datganiad ar 20 Hydref, **dywedodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd** wrth Aelodau'r Senedd nad oedd "mewn sefyllfa o hyd i roi unrhyw sicrwydd i chi beth fydd canlyniadau'r negodiadau, er bod y terfynau amser a bennwyd gan Lywodraeth y DU bellach wedi pasio a'n bod yn nesáu'n gyflym at ddiwedd y cyfnod pontio." Dywedodd:

> Gan na chafwyd cyfarfod Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) cyn cyfarfod y Cyngor Ewropeaidd yr wythnos diwethaf, ysgrifennais at Lywodraeth y DU yn galw arni i roi blaenoriaeth i gael cytundeb, ac yn amlinellu'n glir beth y ddylai Llywodraeth y DU ei wneud er budd pennaf busnesau a chymunedau yng Nghymru, ac ar draws y DU

Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar 17 Medi, **dywedodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd** nad oedd wedi cael briff ar lefel weinidogol ar ganlyniad yr wythfed rownd o negodi, ond roedd trafodaethau

yn ‘parhau’ ar gynnal cyfarfod arall o Gyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau’r Undeb Ewropeaidd). Diweddarwyd Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau’r Undeb Ewropeaidd) ar y trafodaethau gan yr Arglwydd David Frost pan **gyfarfu ddiwethaf ar 3 Medi.**

## Trafodaethau rhyngwladol

Fe wnaeth y Prif Weinidog **newidiadau i gyfrifoldebau gweinidogion** o ran cysylltiadau rhyngwladol ar 10 Hydref. Mae’r Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Pontio Ewropeaidd wedi cael cyfrifoldeb am gysgodi trafodaethau masnach Llywodraeth y Deyrnas Unedig, tra bod y Prif Weinidog wedi cymryd cyfrifoldeb am agweddau eraill ar gysylltiadau rhyngwladol.

**Cymerodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol dystiolaeth gan y Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol ar y pryd** ar 24 Medi. Cadarnhaodd fod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweld deg pennod gyntaf y cytundeb rhwng y Deyrnas Unedig a Japan, gan eu bod wedi bod yn destun sgwrio cyfreithiol.

## Parodrwydd

### Llywodraeth Cymru

**Rhoddodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd dystiolaeth** ar barodrwydd i’r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar 17 Medi. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn “diwygio” ei chynlluniau ar gyfer ymadawiad heb gytundeb a luniwyd yn 2019, ac y **bydd yn cyhoeddi** trosolwg o’i 'gynllun ar gyfer diwedd y cyfnod pontio' ym mis Tachwedd, a fydd yn amlinellu’r 'camau newydd a’r camau parhaus y bydd angen eu dilyn yn ogystal ag ymyriadau ledled y DU'.

Ar 17 Medi, cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol **ddatganiad ysgrifenedig** i roi diweddariad ar baratoadau ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. Cyfeiriodd yn y datganiad at 70 o brosiectau parodrwydd ar gyfer diwedd y cyfnod pontio gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig roedd Llywodraeth Cymru wedi eu gweld, yn seiliedig ar asesiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig a oedd buddiant datganoledig. Mae 130 o brosiectau eraill yn bodoli. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gael gweld y rhain er mwyn 'deall y gyd-ddibyniaeth rhwng y prosiectau'.

### Porthladdoedd a ffiniau

Nodir ym **Model Gweithredu Ffiniau** wedi ei ddiweddaru Llywodraeth y Deyrnas Unedig bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gweithio gyda Llywodraeth

Cymru i gadarnhau gofynion newydd ar gyfer seilwaith tollau yng Nghaergybi a phorthladdoedd yn ne-orllewin Cymru ar gyfer Gorffennaf 2021. **Dywedodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd yn y Cyfarfod Llawn** ar 7 Hydref ei fod wedi ysgrifennu at Lywodraeth y Deyrnas Unedig 'i gael sicrwydd bod yr un math o *checks* yn digwydd yn Lloegr ac yn yr Alban yn lle ein bod ni'n cael sefyllfa lle bod *incentive* i loriau fynd ar hyd llwybrau gwahanol'.

Nodir yn **Senario Achos Gwaethaf Rhesymol** Llywodraeth y Deyrnas Unedig bod rhai gweithredwyr porthladdoedd i ffwrdd o'r croesfannau culfor byr wedi nodi y byddant yn gwrthod mynediad i gerbydau cludo nwyddau heb y dogfennau i ddod i mewn i'r Undeb Ewropeaidd. Dywed y gallai hyn arwain at giwiau ac oedi mewn porthladdoedd o'r fath, ond roedd yn annhebygol y byddai aflonyddwch 'sylweddol, parhaus'.

**Cymerodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol dystiolaeth** gan y Gymdeithas Cludiant Ffyrdd, Logistics UK a Chymdeithas Porthladdoedd Prydain ar 1 Hydref. Yn San Steffan ar 1 Hydref, cymerodd y **Pwyllgor Materion Cymreig** dystiolaeth gan randdeiliaid o'r sector porthladdoedd ar oblygiadau Brexit i fasnach yng Nghymru.

### Parodrwydd busnes

**Dywedodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd yn y Cyfarfod Llawn** ar 7 Hydref 'nad oes gennym [Llywodraeth Cymru] lawer iawn o hyder fod y lefel honno o baratoi'n digwydd ymhlith busnesau.'

Cymerodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol dystiolaeth gan randdeiliaid o'r **sectorau bwyd, pysgodfeydd ac amaeth** ar 8 Hydref a chan randdeiliaid yn y **sector meddyginiaethau** ar 15 Hydref. Yn San Steffan ar 8 Hydref, clywodd y **Pwyllgor Materion Cymreig** dystiolaeth gan y diwydiannau fferyllol, ceir a dur o ran Brexit a masnach.

## Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd

**Holwyd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd** am y cynllun preswylio'n sefydlog i ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd yng Nghymru yn y Cyfarfod Llawn ar 7 Hydref. Dywedodd fod tua 70,000 o bobl yng Nghymru yn gymwys ar gyfer y cynllun a bod tua 60,000 o geisiadau wedi eu gwneud. Dywedodd ei fod wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cartref i alw am ymestyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i'r cynllun y tu hwnt i ddiwedd Mehefin 2021, yng ngoleuni cau'r Swyddfa Gartref a gwasanaethau cymorth dros dro oherwydd COVID-19 (gweler adran 2.3).

## Deddfwriaeth

Cafwyd nifer o **ddatganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C** gan Lywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r Senedd am offerynnau statudol y Deyrnas Unedig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) sydd o fewn cymhwysedd datganoledig.

Yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Hydref, **dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd** ei fod yn disgwyl i Lywodraeth y Deyrnas Unedig wneud 22 o offerynnau statudol pellach mewn meysydd datganoledig erbyn diwedd y cyfnod pontio a deg arall yn y flwyddyn newydd. Roedd hefyd yn disgwyl i Lywodraeth Cymru wneud tua 22 erbyn diwedd y flwyddyn. Dywedodd fod corff sylweddol o waith o bosibl a fydd yn digwydd o ganlyniad i beth bynnag fydd canlyniad y trafodaethau hynny, a'i bod yn ddigon posibl y bydd hynny'n digwydd mewn cyfnod byr iawn.

**Cymerodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dystiolaeth** gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd ar ddeddfwriaeth ar gyfer diwedd y cyfnod pontio ar 21 Medi. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru o'r farn bod 'dewisiadau wrth gefn' pe na bai'r Bil Pysgodfeydd, y Bil Masnach a/neu'r Bil Amgylchedd yn cael Cydsyniad Brenhinol erbyn diwedd y cyfnod pontio, ond y byddai angen i Lywodraeth Cymru gyflwyno Bil annibynnol ar daliadau uniongyrchol i ffermwyr pe na bai'r Bil Amaethyddiaeth yn cael Cydsyniad Brenhinol mewn pryd (gweler adran 3.4).